

PWYLLGOR SAFONAU

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 23 Mawrth, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: R. Hendicott (Cadeirydd); L. Tinsley Is-Gadeirydd); R. Alexander, P. Hallett a G. Watkins (Aelodau Annibynnol), Cynghorwyr R.M. Birch a C.P. Franks.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr, 2023 fel cofnod cywir, yn amodol ar newid i gofnod 661 bod y geiriau “gan fod hwn wedi bod yn fater ar gyfer achos troseddol” ym mhedwerydd paragraff y cofnod yn cael ei dileu gan nad oedd hyn yn adlewyrchiad cywir o'r drafodaeth.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Gwnaeth y Cynghorydd Franks ddatganiad o ddiddordeb yn y ceisiadau am ollyngiadau yn ymwneud â'r Cynghorydd D. Evans oherwydd ei fod yn gysylltiad agos â'r ymgeisydd a gadawodd yr ystafell pan oedd y ceisiadau'n cael eu hystyried.

EITEM AGENDA 4. CAIS AM GANIATÂD (SM/PGCD) –

PENDERFYNWYD – BOD y goddefebau fel y'u nodir yn yr atodlen isod yn cael eu caniatáu hyd at ddyddiad yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf:

Aelod sy'n Gofyn am Oddefeb	Paragraff(au) Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Goddefebau) (Cymru) 2001 - y caniateir goddefebau oddi tanynt ac y gwnaed cais amdanynt oddi tanynt	Penderfyniad
Cynghorydd Cymuned Dinas Powys D. Evans	(ch), (dd) ac (h)	Siarad a phleidleisio ar faterion cyffredinol ond siarad dim ond mewn perthynas â materion Cyllid ac Eiddo yn ymwneud â Southra Park yn unig yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Dinas Powys

Cynghorydd Cymuned Dinas Powys D. Evans	(ch), (dd) ac (h)	Siarad a phleidleisio ar faterion cyffredinol; ond siarad dim ond mewn perthynas â materion Cyllid ac Eiddo yn ymwneud â Pharc Seel yn unig yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Dinas Powys
Cynghorydd Cymuned Dinas Powys D. Evans	(ch), (dd) ac (h)	Siarad a phleidleisio ar faterion cyffredinol; ond siarad dim ond mewn perthynas â materion Cyllid ac Eiddo yn ymwneud â rheoli rhandiroedd yn unig yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Dinas Powys
Cyngor Bro Morgannwg y Cynghorydd W.A. Hennessy	(ch) ac (dd)	Siarad a phleidleisio yng nghyfarfodydd y Cyngor ar faterion cyffredinol, ond siarad dim ond os yw'r mater yn rhagfarnu, ar faterion yn ymwneud â gwasanaethau teleofal bod yn dderbynnnydd gwasanaeth teleofal gan y Cyngor

Rheswm dros y penderfyniad

Cydymffurfio â'r rheoliadau a'r rhwymedigaethau ar gyfer rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio.

EITEM AGENDA 5. SYLWADAU GAN AELODAU ANNIBYNNOL O GYFARFODYDD PWYLLGORAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED (SM/PGCD) –

PENDERFYNWYD –

- (1) NODI'r adroddiad a'r adborth a dderbyniwyd mewn perthynas ag ymweliadau arsylwi a gynhaliwyd gan Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau.
- (2) BOD Aelodau Annibynnol yn cael gwybod am unrhyw Gynghorau Tref a Chymuned nad oeddent wedi derbyn ymweliad arsylwi ar ddiwedd y flwyddyn a bod trefniadau wedi'u gwneud i'w cwblhau.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried y sylwadau a wnaed a rôl y Pwyllgor Safonau.

EITEM AGENDA 6. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR
SAFONAU (SM/PGCD) –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad, gan nodi bod dyddiad y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 8 Mehefin, 2023.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 7. DIWEDDARIAD YNGHYLCH FFORWM PWYLLGORAU
SAFONAU CENEDLAETHOL, CYFARFODYDD GRŴP SWYDDOGION MONITRO
CYMRU GYFAN A CHYFARFODYDD ARWEINYDD GRŴP AC AELODAU
ANNIBYNNOL (SM/PGCD) –

PENDERFYNWYD – DERBYN yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 8. GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON
GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SM/PGCD) –

PENDERFYNWYD – NODI cynnwys yr adroddiad, gan ystyried y byddai diweddariad ar yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac y byddai unrhyw faterion sy'n codi dan Ran II yr adroddiad yn cael eu hystyried dan Ran II yr agenda.

Rheswm dros y penderfyniad

I hysbysu'r Aelodau o'r Pwyllgor.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

EITEM AGENDA 10. GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON
GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SM/PGCD) (GWYBODAETH
EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

PENDERFYNWYD – NODI'r wybodaeth gyfrinachol a roddwyd gan y Swyddog
Monitro yn y cyfarfod.

Rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried gohebiaeth a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon, gan nodi ei bod yn
gyfrinachol ar hyn o bryd.